Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

# Cylch Dechrau'n Deg Pant

**Canolfan Gymunedol Gardden**
**Heol Eifion**
**Rhos**
**LL14 2EW**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

**This report is also available in English**



## Dyddiad Cyhoeddi

**23 Ebrill 2018**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gellir gweld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gellwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.*

*Rhaid ichi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Cylch Meithrin Dechrau’n Deg, Pant wedi ei gofrestru i ofalu am uchafswm o 12 o blant. Mae’r gwasanaeth yn gweithredu bob bore o ddydd Llun i ddydd Gwener, rhwng 8.45am ac 11.15am yn ystod tymor yr ysgol, ac mae wedi ei leoli yn y ganolfan gymunedol oddi ar Heol Eifion, Rhosllannerchrugog. Mae’n lleoliad cyfrwng Cymraeg ac yn derbyn plant rhwng dwy a thair oed. Mae’r grŵp yn elwa o Gyllid Dechrau’n Deg. Rhiannon Jones yw’r Person Cofrestredig.

## Crynodeb o’n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae’r plant yn ganolog i’r gwasanaeth hwn ac yn derbyn gofal gwresog, sylwgar a phroffesiynol. Mae eu llesiant a’u hyder yn cael eu gwella’n sylweddol. Mae ymarferwyr addfwyn a charedig â chymwysterau da yn cynnig amgylchedd chwarae cyfoethog, yn llywio’r plant mewn modd sensitif trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn diwallu eu holl anghenion. Mae’r amgylchedd yn addas iawn ac yn cael ei baratoi’n feunyddiol gydag amrywiaeth o fannau a gwneir defnydd da ohonynt. Mae’r arweinwyr yn sicrhau diogelwch y plant ac yn gefnogol o’r ymarferwyr gan ddarparu hyfforddiant ac adnoddau angenrheidiol.

### 2. Gwelliannau

Mae’r plant yn dysgu Cymraeg yn fwy effeithiol gan fod yr ymarferwyr yn defnyddio cwricwlwm Croesi’r Bont.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Gwnaed un argymhelliad ynghylch asesiadau risg ysgrifenedig.

## 1. Llesiant

### Crynodeb

Mae gan y plant lais, maent yn mynegi eu hunain ac yn gwneud dewisiadau yn hyderus yn unol â'u camau datblygu. Mae'r plant yn ffynnu ac yn llwyddo gan eu bod yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi. Maent yn llwyddo i ddechrau dysgu sgiliau cymdeithasol gwerthfawr. Mae'r plant yn ddysgwyr egnïol a chwilfrydig ac yn mwynhau amrywiaeth o brofiadau yn y gwasanaeth hwn. Mae'r plant yn dysgu llawer o gysyniadau trwy chwarae, er enghraifft sgiliau cyn darllen a chorfforol, dysgu geiriau ac ymadroddion Cymraeg, ac yn datblygu'n dda ac yn dod yn annibynnol o ganlyniad.

### Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Gwrandewir ar y plant a chaiff eu dewisiadau eu parchu.

Mae'r plant yn dewis lle i chwarae ac roeddent yn cael eu cynorthwyo a'u llywio gan yr ymarferwyr yn unol â'u hanghenion unigol. Roedd eu dewisiadau yn cael eu parchu a gwelwyd hyn pan nad oedd yn rhaid i blentyn wisgo ei gôt i fynd adref. Mae'r plant hefyd yn dewis pa fyrbryd iachus i'w gael gan fod amrywiaeth yn cael ei chynnig. Roedd llawer o fannau a gweithgareddau wedi eu paratoi ar gyfer y plant ac roedd llawer o deganau ychwanegol dan do a oedd wedi eu storio ar uchder y plant fel y gallant helpu eu hunain. Mae plant sydd angen gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn derbyn un.

Mae gan y plant lais cryf ac maent yn gwneud dewisiadau yn hyderus.

### 1.2 I ba raddau mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel, yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Gwelsom fod y plant yn ymdopi'n dda â bod ar wahân i'w rhieni. Roeddent yn hapus i archwilio eu hamgylchedd ac yn ymgysylltu'n dda â'r ymarferwyr. Roedd y plant yn fodlon ac yn dangos mwynhad, er enghraifft roedd un plentyn yn canu wrth chwarae. Roedd y plant yn gyfarwydd â'r drefn a oedd yn rhoi synnwyr o ddiogelwch iddynt, ac roeddent yn hapus i symud o un gweithgaredd i'r llall. Roedd gan y plant berthynas annwyl â'r ymarferwyr a siaradwyd â nhw yn addfwyn. Roeddent yn chwarae ochr yn ochr â'i gilydd yn fodlon.

Mae'r plant yn ffynnu ac yn llwyddo gan eu bod yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi.

### 1.3 Pa mor dda mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd a'r ymarferwyr.

Roedd y plant yn rhyngweithio ac yn cydweithredu'n dda gyda'u cyfoedion ac oedolion yn unol â'u cam datblygu. Roedd hyn oherwydd eu bod yn derbyn llawer o gymorth. Er enghraifft, roeddent yn dysgu i dacluso teganau a rhannu eitemau chwarae yn y tywod.

Roedd y plant yn cael eu hannog i fod yn ymwybodol o eraill ar yr iard wrth wthio cadeiriau gwthio.

Mae’r plant yn dysgu sgiliau cymdeithasol gwerthfawr yn llwyddiannus.

### 1.4 I ba raddau mae'r plant yn mwynhau eu chwarae a’u dysgu?

Mae’r plant yn mwynhau eu hamser yn y gwasanaeth.

Roedd y plant wedi ymgolli yn eu chwarae a’u dysgu ac yn frwdfrydig amdanynt. Roeddent yn dysgu am briodweddau gwahanol ddeunyddiau fel dŵr a thywod. Roedd y plant yn datblygu agweddau cadarnhau at brofiadau newydd fel printio gyda sbyngau siâp rhosys i greu llun. Gwelsom fod gan blentyn ymdeimlad mawr o gyflawniad wrth iddo greu ei gerdyn achlysur arbennig.

Mae’r plant yn ddysgwyr egnïol a chwilfrydig ac yn mwynhau amrywiaeth o brofiadau.

### 1.5 Pa mor dda mae plant yn datblygu, dysgu a dod yn annibynnol?

Mae’r plant yn datblygu’n dda ac yn dysgu sgiliau i fod yn annibynnol.

Roedd y plant yn datblygu sgiliau i hybu eu datblygiad cyffredinol. Roedd y plant yn dysgu sgiliau iaith a geirfa mewn ffordd naturiol, fel “rhosyn” wrth wneud eu cardiau. Roedd eu sgiliau corfforol yn cael eu hymarfer a chyhyrau penodol yn cael eu cryfhau yn yr awyr agored wrth chwarae gyda’r twnnel a chydbwyso ar gerrig sarn. Gwelwyd y plant yn bwyta ac yn yfed yn annibynnol yn ystod amser byrbryd ac roeddent yn dysgu i olchi eu dwylo gyda chymorth.

Mae’r plant yn dysgu llawer o sgiliau trwy chwarae ac yn datblygu’n dda ac yn dod yn annibynnol.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae'r ymarferwyr yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach mewn amgylchedd gofalgar. Maent yn rheoli rhyngweithio yn gyson gan fod yn esiamplau da a defnyddio strategaethau cadarnhaol. Mae ymarferwyr proffesiynol a medrus yn hybu dysgu'r plant trwy chwarae, gan gynnig gweithgareddau difyr a diwallu anghenion unigol y plant.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda mae'r ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r ymarferwyr yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach.

Roedd yr ymarferwyr yn deall ac yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau ar gyfer y gwasanaeth. Roedd tystysgrifau hyfforddiant yn dangos eu bod wedi cwblhau hyfforddiant diogelu ac roedd rhifau cyswllt ar gyfer yr asiantaethau perthnasol ar gael yn barod. Roedd gan yr holl ymarferwyr gymwysterau cymorth cyntaf cyfredol, ac roedd ffurflenni damweiniau yn dangos yr ymdriniwyd â digwyddiadau yn briodol a bod rhieni yn cael eu hysbysu ac yn llofnodi'r cofnodion. Roedd byrbrydau a diodydd iach yn cael eu darparu a gwelwyd eu bod yn cael eu paratoi'n foddhaol. Gwelsom fod hylendid dwylo a brwsio dannedd yn cael eu haddysgu gan fod y gwasanaeth yn rhan o'r rhaglen Cynllun Gwên. Roedd byrddau yn cael eu glanhau cyn ac ar ôl bwyta byrbrydau. Gwelwyd gweithdrefnau newid cewynnau ac roeddent yn cynnwys prosesau ar gyfer osgoi croes-heintio, a siaradwyd â'r plentyn mewn ffordd addfwyn. Roedd cofnodion o ymarferion tân rheolaidd yn dangos bod yr ymarferwyr yn gwybod sut i wagio'r adeilad yn ddiogel.

Roedd yr ymarferwyr yn cadw'r plant yn iach yn effeithiol ac mae eu diogelwch yn flaenoriaeth.

### 2.2 Pa mor dda mae'r ymarferwyr yn rheoli rhyngweithio?

Mae'r ymarferwyr yn rheoli rhyngweithio yn llwyddiannus gan ddefnyddio strategaethau cadarnhaol.

Roedd yr ymarferwyr yn hybu ymddygiad cadarnhaol yn dda trwy ddathlu ymddygiad da. Roeddent yn defnyddio technegau tynnu sylw yn llwyddiannus ac yn canmol y plant yn aml, er enghraifft am dacluso'r trenau. Clywyd llawer o ganmoliaeth ac anogaeth gynnes ac anogwyd y plant i ddweud "Diolch" yn ystod amser byrbryd.

Mae'r ymarferwyr yn rheoli rhyngweithio'r plant yn dda gan eu helpu i gydweithredu a dysgu sgiliau cymdeithasol.

### 2.3 Pa mor dda mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad y plant, ac yn bodloni eu hanghenion unigol?

Mae ymarferwyr gofalgar a medrus yn hybu dysgu a datblygu'r plant gan gynnig amrywiaeth o brofiadau diddorol.

Roedd yr ymarferwyr yn darparu amgylchedd magwrol a gofalgar ac yn darparu gofal ymatebol, gan eu bod yn gwybod manylion am y plant a oedd wedi cael eu rhannu gan y

rhieni ar lafar ac mewn ffurflenni cofrestru. Roedd yr ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn deall eu cymeriadau a'u hanghenion, gan wybod, er enghraifft beth oedd hoff deganau'r plant. Roedd yr ymarferwyr yn hybu datblygiad yr holl blant trwy gynllunio a darparu llu o brofiadau chwarae a dysgu difyr. Roedd yr ymarferwyr yn defnyddio ffyrdd llwyddiannus o ymgysylltu â'r plant, fel defnyddio cymhorthion gweledol wrth ganu a Makaton i helpu gyda datblygiad iaith. Roeddent yn chwarae gyda'r plant yn y clai chwarae gan gyflwyno geirfa a helpu'r plant i feddwl am briodweddau'r deunydd. Roeddent yn deall geirfa arbennig y plant ac yn gallu ymateb yn briodol. Roeddent yn hybu'r Gymraeg yn effeithiol gan fod y plant yn deall yr hyn a oedd yn cael ei ddweud ac yn ymateb yn Gymraeg weithiau. Gwelsom fod nodiadau cynllunio ac arsylwi ysgrifenedig yn cael eu cwblhau ar gyfer pob plentyn gan alluogi'r ymarferwyr i addasu'r gweithgareddau ar gyfer anghenion y plant. Mwynhaodd y plant gyfnod o chwarae awyr agored pan oeddent yn ymarfer sgiliau rhedeg a chydbwyso.

Mae'r ymarferwyr yn hybu dysgu'r plant trwy ddarparu amgylchedd chwarae cyfoethog ac maent yn diwallu anghenion unigol gan eu bod yn adnabod y plant yn dda.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r amgylchedd yn addas iawn gan ei fod yn ddiogel ac yn canolbwyntio ar y plentyn, gan gynnig profiadau personol amrywiol i'r plant. Mae ansawdd ac amrywiaeth yr adnoddau yn helaeth ac mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd da ohonynt i greu amgylchedd diddorol a difyr i'r plant. Mae'r arweinwyr yn darparu amgylchedd glân a diogel ac asesiadau risg ysgrifenedig, er bod angen eu dyddio i sicrhau bod yr holl ymarferwyr yn ymwybodol o sut i gadw'r plant yn ddiogel. Maent yn sicrhau bod y plant yn cael eu goruchwylio'n dda dan do ac yn yr awyr agored gan ymarferwyr gwybodus.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau diogelwch yr amgylchedd?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel.

Roedd mynedfa ddiogel wedi ei chloi ac roedd cofnod o'r holl ymwelwyr yn cael ei gadw. Roedd yr holl fannau dan do ac yn yr awyr agored yn lân, yn ddiogel ac yn gaeedig ac roedd asesiadau risg ysgrifenedig ar gael i ddangos bod yr ymarferwyr yn gwybod beth oedd y peryglon a sut i'w rheoli. Mae angen dyddio'r rhain i ddangos eu bod yn cael eu hadolygu bob blwyddyn o leiaf. Roedd archwiliadau ychwanegol o'r larwm tân, y diffoddwyr tân a dyfeisiau trydanol cludadwy yn gyfredol.

Mae'r arweinwyr yn llwyddo i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel a bod yr ymarferwyr yn ymwybodol o beryglon a sut i'w rheoli.

### 3.2 Pa mor dda mae'r arweinwyr yn sicrhau addasrwydd yr amgylchedd?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn eithriadol o addas ar gyfer oedrannau'r plant sy'n mynychu.

Roedd mannau chwarae a dysgu wedi eu trefnu ar uchder y plant fel y gallant gael mynediad rhwydd atynt. Dan do, defnyddid cadeiriau a byrddau pren, cadarn, maint plant yn ogystal â dodrefn ar gyfer darpariaeth y blynyddoedd cynnar. Roedd basn ymolchi maint plant cludadwy yn yr ystafell i alluogi'r plant i olchi eu dwylo, a defnyddid uned newid cewynnau arbennig. Roedd grisiau yn helpu'r plant i ddefnyddio'r toiledau pan fo angen.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas i blant, yn ddiddorol, yn ddifyr ac yn gyffrous i'r plant.

### 3.3 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a'r offer?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a'r offer yn amrywiol, yn briodol i oedrannau'r plant, yn lân ac o ansawdd da iawn.

Roedd yr arweinwyr wedi sicrhau bod gan y plant fynediad at amrywiaeth eang o adnoddau chwarae a dysgu difyr ac o ansawdd da. Roedd y rhain yn cynnwys byrddau pegiau mawr, man cyfforddus â llyfrau a bwrdd natur a man gwneud marciau. Roedd gweithgareddau a theganau ar gael mewn niferoedd digonol i sicrhau bod gan y plant ddewis diddorol. Roedd

yr holl deganau a gemau yn lân, yn drefnus ac wedi eu storio mewn bocsys wedi eu labelu. Roedd yr offer a'r dodrefn yn addas ar gyfer oedrannau'r plant a oedd yn mynychu. Roedd yr arweinwyr yn gwneud yn siŵr bod eitemau peintio a chrefft helaeth yn cael eu defnyddio a'u storio i gynorthwyo'r ymarferwyr. Roedd yr arweinwyr wedi darparu llyfrau a theganau i ddangos y gymdeithas ehangach a hybu cydraddoldeb.

Mae'r arweinwyr yn llwyddo i sicrhau ansawdd a phriodoldeb adnoddau ac offer i gynnig gweithgareddau difyr i'r plant.

## 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn brofiadol, yn wybodus, yn flaengar ac yn ymdrechu i ddarparu gwasanaeth o ansawdd. Mae'r hunanwerthuso yn effeithiol ac mae gwelliannau'n cael eu gwneud gan ystyried pawb dan sylw. Mae'r ymarferwyr yn cael eu rheoli'n dda ac mae'r arweinwyr yn sicrhau bod ganddynt hyfforddiant, cymorth ac adnoddau parhaus digonol. Mae partneriaethau gyda'r rhieni ac eraill yn effeithiol er budd y plant a'u teuluoedd.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae'r arweinyddiaeth yn effeithiol ac yn drefnus.

Mae gan yr arweinwyr synnwyr o bwrpas a disgwyliadau i hybu gwelliant a chanlyniadau da i'r plant. Er enghraifft, gwelsom weithlu hapus, cymwys sydd wedi ei gefnogi'n dda. Gwelsom arferion cyson drwy'r gwasanaeth cyfan ac roedd yr ymarferwyr yn gweithio'n dda fel tîm. Mae'r arweinwyr bob amser wedi cydymffurfio ag unrhyw argymhellion a wnaed ac yn sicrhau bod ymrwymiadau cyfreithiol yn cael eu bodloni, fel yswiriant atebolrwydd cyhoeddus. Roedd Datganiad o Ddiben eglur, ystyriol o'r darllenydd a oedd yn cynnig y wybodaeth ofynnol. Roedd yr holl gofnodion yn drefnus ac yn hawdd eu rheoli. Roedd y cofrestrau yn cofnodi presenoldeb y plant a'r ymarferwyr yn eglur.

Mae gan yr arweinyddiaeth synnwyr eglur o bwrpas sy'n arwain at ganlyniadau da i'r plant.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunan-arfarnu a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae'r arweinwyr yn hybu diwylliant cadarnhaol o hunanwerthuso. Mae'r gwasanaeth yn cael ei adolygu a'i ddatblygu'n barhaus.

Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn adnabod eu gwasanaeth yn dda, ac yn hybu diwylliant cadarnhaol o hunanwerthuso a gwelliant parhaus sydd wedi ei ymsefydlu yn yr arferion beunyddiol. Roedd eu Hadolygiad Blynyddol yn cynnwys llawer o wybodaeth am y gwasanaeth, gan gynnwys meysydd o arfer da a chynlluniau ar gyfer gwella. Roedd rhai meysydd i'w gwella wedi cael sylw eisoes, fel defnyddio Makaton i helpu'r plant i ddeall a chaffael iaith. Roedd yr Adolygiad Blynyddol yn dangos sut y gofynnir i'r rhieni a'r plant am eu safbwyntiau ar y gwasanaeth, a oedd yn gadarnhaol. Roedd y darparwyr yn nodi yn y ddogfen hon y byddai paratoi'r byrbryd ymlaen llaw yn rhoi mwy o amser gyda'r plant. Roedd hyn wedi ei gwblhau'n rhannol a byddai o fudd i'r plant pe gellid cyflwyno hyn yn llawn, gan fod cyfnod byr iawn (llai na dwy funud) pan oedd y plant yn aros yn y man darllen llyfrau i ymarferwr ymuno â nhw.

Mae'r arweinwyr yn adnabod y gwasanaeth yn dda. Caiff cryfderau a meysydd i'w gwella eu cydnabod a chymerir camau i gynnal safonau uchel a gwella arfer yn barhaus.

### 4.3 Pa mor effeithiol mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae gan yr arweinwyr systemau ar waith ar gyfer rheoli ymarferwyr ac adnoddau.

Gwelsom fod gan yr ymarferwyr wybodaeth ragorol am y plant a oedd yn eu galluogi i ddiwallu eu hanghenion yn brydlon, fel newid cewynnau, ac roedd ganddynt ffordd addfwyn a charedig gyda'r plant. Gwnaed defnydd da o'r ymarferwyr a'u hamser. Defnyddiwyd dau o ymarferwyr gyda thri phlentyn gan sicrhau bod y plant yn cael digonedd o sylw a chymorth. Roedd cyrsiau Dechrau'n Deg yn cael eu mynychu ac roedd Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yn cael eu defnyddio i gael gafael ar gyrsiau hefyd. Archwiliwyd sampl o ffeiliau ymarferwyr gennym a gwelsom brosesau yn sicrhau bod gan ymarferwyr y cymwysterau gofynnol a'u bod wedi mynychu hyfforddiant ychwanegol. Roedd gan yr holl ymarferwyr archwiliadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar waith. Cawsom sgyrsiau gyda'r ymarferwyr hefyd a gadarnhaodd eu bod wedi cael profiad da yn ystod eu cyflogaeth. Roedd gwerthusiadau blynyddol wedi cael eu cwblhau ar gyfer yr ymarferwyr ac roedd yr Adolygiad Blynyddol yn nodi hyfforddiant ar gyfer ymarferwyr hefyd.

Mae gan yr arweinwyr systemau effeithiol a llwyddiannus ar gyfer nodi anghenion hyfforddi a gweithio gyda'r ymarferwyr i wella perfformiad.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae'r arweinwyr yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni am eu plant ac mae ganddynt bartneriaethau pwysig â nhw ac ag asiantaethau eraill.

Cysylltid â'r rhieni yn feunyddiol ac roeddent yn sgwrsio â'r ymarferwyr ac yn cael cyfle i gynnig eu safbwyntiau yn flynyddol yn ysgrifenedig gan ddefnyddio holiadur. Roedd yr ymatebion gan rieni yn gadarnhaol wrth iddynt nodi pa mor hapus yr oedd eu plant i fynychu. Roedd trafodaethau â'r ymarferwyr yn adlewyrchu'r angerdd yr oedd ganddynt i gydweithio â rhieni ac eraill, gan roi'r plant yn gyntaf. Defnyddid cyfathrebu ag asiantaethau allanol fel tîm iechyd deintyddol Cynllun Gwên ac ymwelwyr iechyd er budd y plant unigol. Dywedodd yr ymarferwyr wrthym fod athro cyswllt Dechrau'n Deg yn cynnig mewnbwn defnyddiol ar gyfer gwella gweithgareddau.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod partneriaethau gyda rhieni ac eraill o fudd i'r plant ac yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol iddyn nhw a'u teuluoedd.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac argymhellion yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd gan arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Mae angen dyddio'r asesiadau risg ysgrifenedig i ddangos eu bod yn cael eu hadolygu bob blwyddyn o leiaf.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Arolygiad dirybudd llawn oedd hwn a gynhaliwyd yn rhan o'n hamserlen arferol o arolygiadau. Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ar 9 Mawrth 2018 rhwng 9am ac 11.30am.

Gwnaed y canlynol gennym:

- Arolygwyd sampl o ddogfennau a pholisïau;
- arsylwyd ar arfer a chwblhawyd arsylwadau gan ddefnyddio dull SOFI 2 i gasglu tystiolaeth o ymgysylltiad y plant a'r gofal a oedd yn cael ei ddarparu gan yr ymarferwyr;
- siaradwyd â'r plant, gweithwyr proffesiynol eraill a dau ymarferwr;
- arolygwyd y mannau a ddefnyddid; a
- hysbyswyd y person cofrestredig am ein canfyddiadau dros y ffôn ar 9 Mawrth 2018 .

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn yr ydym yn ei wneud ar ein gwefan www.aggcc.org.uk

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd i Blant**<br>**Gofal Dydd Sesiynol** |
| **Person Cofrestredig** | **Rhiannon Jones** |
| **Person â gofal** | **Ceri Thomas** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **12** |
| **Ystod oedran y plant** | **2 – 3 oed** |
| **Oriau agor** | **Boreau Llun – Gwener rhwng 8.45 ac 11.15 yn ystod tymor yr ysgol** |
| **Prif iaith y gwasanaeth** | **Cymraeg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol AGGCC** | **19 Mawrth 2015** |
| **Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hyn** | **9 Mawrth 2018** |
| **Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Ydy** |
| **A yw addysg y blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair blwydd oed yn cael ei darparu yn y gwasanaeth?** | **Nac ydy** |
| **Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg?** | Ydy<br>Mae'r gwasanaeth hwn yn gwneud 'Cynnig Gweithredol' o'r Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion iaith a diwylliant Cymraeg pobl sy'n defnyddio, neu a allai ddefnyddio, y gwasanaeth. |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:**<br>Dim | |